Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwnewch wahaniaeth gyda ni



## Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru

Cynlluniau a Buddion i Weithwyr

# Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru

## Gwnewch wahaniaeth gyda ni

**Ni:**

Mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Gyda 27 o broffesiynau wedi'u rhannu dros chwe adran mewn un sefydliad, mae'n ddewis gwych ar gyfer gyrfa hir, amrywiol a gwerth chweil.

Mae ein gwerthoedd - **tegwch, creadigrwydd, partneriaeth, a phroffesiynoldeb** wrth wraidd sut rydyn ni'n gweithio. Rydyn ni'n cynnig amgylchedd gwaith hyblyg a chefnogol gyda lles gweithwyr yn flaenoriaeth ac rydyn ni'n angerddol dros annog ein holl weithwyr i wireddu eu potensial, waeth beth fo'u cefndir.

**Chi:**

P'un a oes gennych chi ddiddordeb mewn cefnogi ein nod o gyrraedd Cymru Sero Net, gofal iechyd cynaliadwy o ansawdd uchel, diwygio addysgol, neu yn ein gweledigaeth o ddod yn genedl Wrth-hiliol, mae digon o gyfleoedd i wneud gwahaniaeth gyda ni.

Gweithiwch mewn amgylchedd cadarnhaol, cynhwysol i gefnogi'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru i adeiladu Cymru decach, wyrddach, fwy cyfartal nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gyda chydweithio wrth wraidd popeth a wnawn, mae cyfleoedd hefyd i chi weithio gyda phartneriaid ar draws y gwasanaeth cyhoeddus.



# Ein gwerthoedd

**Rydyn ni'n hyrwyddo creadigrwydd.** Rydyn ni wedi ymrwymo i ddod o hyd i ffyrdd newydd a gwell o gyflawni ar gyfer pobl Cymru. Rydyn ni'n fentrus ac yn arloesol, heb ofni herio'r drefn pan fydd angen. Rydyn ni'n chwilfrydig ac yn edrych ymlaen. Rydyn ni'n hyblyg ac yn ystwyth.

**Rydyn ni'n sefyll dros gyfiawnder.** Rydyn ni'n trin ein gilydd, ein partneriaid a'n dinasyddion â thosturi, urddas a pharch. Rydyn ni'n ymdrechu i sicrhau cydraddoldeb ac rydyn ni wedi ymrwymo i gynrychioli'r cymunedau amrywiol rydyn ni'n eu gwasanaethu. Ni fyddwn yn goddef gwahaniaethu o unrhyw fath.

**Rydyn ni'n credu mewn partneriaeth.** Rydyn ni'n rhoi dinasyddion wrth wraidd yr hyn a wnawn, gan fynd ati'n ddiwyd i gynnwys pobl ac ymgysylltu â chymunedau ym mhopeth a gyflawnwn. Rydyn ni'n cofleidio ethos gweithio mewn partneriaeth, cyd-gynhyrchu a phartneriaeth gymdeithasol.

**Rydyn ni'n gwerthfawrogi proffesiynoldeb.** Rydyn ni'n weision cyhoeddus balch, gonest ac atebol, sy'n canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell i Gymru. Rydyn ni'n gweithredu gyda gonestrwydd ac yn sefyll dros yr hyn sy'n iawn. Rydyn ni'n ddiduedd ac yn wrthrychol, wedi ein gyrru gan dystiolaeth ac yn stiwardiaid gofalus o arian cyhoeddus.



## Mae rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau a’n buddion i weithwyr ar y tudalennau canlynol:

- **01 Cydbwysedd Bywyd a Gwaith**
- **02 Cyflog, Pensiynau a Buddion**
- **03 Eich Datblygiad Gyrfa**
- **04 Teg a Chynhwysol**
- **05 Eich Lles**



Dewiswch o’n **27 proffesiwn**

Gallwch gael profiad o waith polisi a chyflawni amrywiol ar draws ein **chwe adran**

Byddwch yn rhan greiddiol o’n **Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru**

# 01
# Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

Mae Llywodraeth Cymru yn annog amgylchedd gwaith cefnogol a chytbwys, gan gynnig yr hyblygrwydd i chi **ddewis ble a phryd rydych chi'n gweithio** pan fo'n bosibl.

- **Gweithio'n Glyfar**
- **Gwyliau Blynyddol Hael**
- **Cyfleoedd Rhan-amser a Rhannu Swyddi**
- **Oriau Cywasgedig**
- **Gweithio yn Ystod y Tymor**
- **Absenoldeb Mamolaeth, Rhiant a Mabwysiadu**
- **Absenoldeb Arbennig**
- **Absenoldeb Gwirfoddoli**

**"Mae gallu anghofio am waith am awr yr wythnos i fynd i redeg, mynd am dro yn y parc lleol neu ganolbwyntio ar hobi newydd yn help mawr i mi barhau i ganolbwyntio ar waith. Dim ond un rhan fach o'r pecyn buddion rhagorol sydd ar gael i mi gan Lywodraeth Cymru."**

- Haydn Bradley-Davies, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru



# 01
# Cydbwysedd Bywyd a Gwaith

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o batrymau gwaith, gan gynnwys rhan-amser, rhannu swyddi, oriau cywasgedig a gweithio yn ystod y tymor. Credwn fod yr hyn rydyn ni'n ei gyflawni yn bwysicach na lle rydyn ni'n gwneud ein gwaith ac fel sefydliad rydyn ni wedi ymrwymo i ddull Gweithio'n Glyfar. Mae hyn yn golygu, drwy ein polisïau, ein gofodau a'n hadnoddau, ein bod yn cefnogi staff i weithio'n hyblyg mewn ffyrdd sy'n ein helpu i gyflawni ein blaenoriaethau mor effeithiol â phosibl.


Ein prif flaenoriaeth fel Gwasanaeth Sifil yw cyflawni'r Rhaglen Lywodraethu fel y gallwn wneud bywyd yn well i bobl a chymunedau yng Nghymru cyn gynted â phosibl. Er mwyn cyflawni hyn, rydyn ni wedi mabwysiadu dull hybrid o weithio o bell, yn y swyddfa neu ar y safle, ac mae gennym fannau gwaith ar hyd a lled y wlad. Mae hyn yn golygu y gallwch gytuno â'ch rheolwr ar sut a ble i weithio i wneud y gorau o'ch cynhyrchiant a'ch lles.

Mae ein **Gofodau Clyfar** ym Mharc Cathays a Chyffordd Llandudno yn cynnig mannau hyblyg gyda'r dechnoleg ar gyfer cydweithio, canolbwyntio tawel neu greadigrwydd, a byddant ar gael ar draws yr ystad yn fuan.

Mae pob cydweithiwr ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru yn elwa ar **31 diwrnod o wyliau blynyddol â thâl** (pro rata ar gyfer staff rhan-amser) ynghyd â gwyliau banc a braint, gan gynnwys diwrnod i ffwrdd ar gyfer pen-blwydd y Brenin. Mae **absenoldeb arbennig â thâl ac absenoldeb di-dâl** hefyd ar gael ar gyfer delio â digwyddiadau bywyd. Rydyn ni'n cynnig **tâl mamolaeth a mabwysiadu** o 26 wythnos ar eich cyfradd gyflog arferol, ac yna 13 wythnos arall ar y gyfradd statudol (yn dibynnu ar hyd eich gwasanaeth parhaus), a 13 wythnos arall o absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu di-dâl.

Mae gan y rhai sy'n gymwys hawl i **Absenoldeb Rhiant a Rennir** o hyd at 39 wythnos o fewn blwyddyn i enedigaeth/lleoli eich plentyn. Mae ein cynnig tadolaeth/absenoldeb cyd-rianta yn dair wythnos ar gyflog llawn. Rydyn ni hefyd yn cynnig hyd at 18 wythnos o absenoldeb rhiant di-dâl hyd nes y bydd eich plentyn yn troi'n ddeunaw oed.

Bydd dod yn wirfoddolwr nid yn unig o fudd i'r gymuned neu'r amgylchedd, ond gellir ei ddefnyddio hefyd i ddatblygu'ch sgiliau. Gall hyd at **bum diwrnod o absenoldeb arbennig** fod ar gael bob blwyddyn ar gyfer gwirfoddoli.



# 02
# Cyflogau, Pensiynau a Buddion

Drwy gynnig cyflogau cystadleuol, pensiwn hael, cynrychiolaeth Undebau Llafur ac ystod eang o fuddion i weithwyr, mae Llywodraeth Cymru yn **arwain y ffordd** fel Cyflogwr Cyflog Byw.

- **Cyflogwr Cyflog Byw**
- **Cynnydd Cyflog Cynyddrannol**
- **Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**
- **Undebau Llafur**
- **Undeb Credyd**
- **Disgownt ar docynnau tymor ar y trenau**
- **Cynllun Ceir Gwyrdd**
- **Cynllun Beicio i'r Gwaith**
- **Blaenswm Cyflog**

**"Fe wnaeth y cynllun beicio i'r gwaith arbed arian i mi ar feic newydd. I mi, mae cymudo ar feic yn gyflymach ac yn wyrddach na gyrru a dwi'n cael 40 munud o ymarfer corff. Dwi ar fy ennill ymhob ffordd."**

- Rhys Williams, Gweithlu'r GIG a Gweithrediadau



02

# Cyflogau, Pensiynau a Buddion

Rydyn ni'n falch o fod yn **Gyflogwr Cyflog Byw**, wedi'i achredu gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Mae ein **cyfraddau cyflog cystadleuol** yn cymharu'n ffafriol ag Adrannau Gwasanaeth Sifil eraill. Mae **cynnydd cyflog cynyddrannol** yn caniatáu i staff symud ymlaen i uchafswm y band cyflog o fewn tair blynedd.

Mae **cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil** yn helpu i ddarparu sicrwydd ariannol ac opsiynau ar gyfer y dyfodol yn ogystal â buddion i'ch teulu. Mae'r holl staff wedi'u cofrestru'n awtomatig ar Alpha, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, gyda chyfraniadau hael gan y cyflogwr yn amrywio o 26.6% i 30.3% yn dibynnu ar gyflog.

Yn Llywodraeth Cymru, mae'r berthynas rhwng y cyflogwr a'r **undebau llafur** yn seiliedig ar bartneriaeth gymdeithasol. Gofalwch fod eich llais yn cael ei glywed drwy ymuno ag un o'n tri undeb llafur cydnabyddedig: y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS), Prospect ac FDA.

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o **fuddion ychwanegol i weithwyr**, gan gynnwys **Cynllun Beicio i'r Gwaith** i helpu gyda chost prynu beic, cynllun cynilo drwy'r gyflogres gydag **Undeb Credyd** a gostyngiad o 5% ar **docynnau tymor blynyddol ar y trenau**. Mae'r **Cynllun Ceir Gwyrdd** yn caniatáu i gyfranogwyr y cynllun brydlesu car allyriadau carbon isel newydd sbon gan ein darparwr, Tusker, gan dalu amdano trwy aberthu cyflog, yn uniongyrchol o'r cyflog cyn treth.

Rydyn ni hefyd yn cynnig **blaensymiau cyflog** fel y gall gweithwyr brynu eitemau i wella eu lles emosiynol ac ariannol, megis tocynnau teithio tymor, offer TGCh, technoleg iechyd y gallwch ei gwisgo, sbectolau ac aelodaeth o glwb chwaraeon.



# 03
# Eich Datblygiad Gyrfa

Rydyn ni'n **angerddol am eich datblygiad** a'ch dyfodol ac yn falch o gynnig amgylchedd lle gall ein gweithwyr ddatblygu a ffynnu.

- **Hyfforddiant Ar-lein**
- **Hyfforddiant Wyneb yn Wyneb**
- **E-ddysgu**
- **Hyfforddi a Mentora**
- **Cyfleoedd i Gamu Ymlaen yn Fewnol**
- **Secondiadau a Benthyciadau**
- **Rhaglenni Datblygu Strwythuredig**
- **Proffesiynau**

**"Mae'r amrywiaeth o opsiynau ffurfiol, anffurfiol ac yn y swydd wedi caniatáu i mi ddatblygu sgiliau fydd yn werthfawr ar draws nifer o feysydd trosglwyddadwy."**

- Darina Davies, Adnoddau Dynol



## 03

# Eich Datblygiad Gyrfa

Rydyn ni’n eich annog i fabwysiadu **dull dysgu hunangyfeiriedig**, gan chwilio am y cyfleoedd sy’n gweddu i’ch arddull ddysgu a’ch anghenion dysgu o’n catalog dysgu helaeth.

Gallwch gael mynediad ar-lein, wyneb yn wyneb a thrwy e-ddysgu drwy ein **Lab Dysgu** a **Champws y Llywodraeth**.

Mae ein **lleoliadau profiad tymor byr (STEP)** yn cynnig cyfleoedd cysgodi a phrofiad gwaith ledled y sefydliad a thu hwnt. Gallwch hefyd manteisio ar rwydweithiau proffesiynol, hyfforddiant, mentora, cyfeillio a chysgodi.

Mae cyfleoedd **camu ymlaen yn fewnol** yn cynnwys y gallu i symud o gwmpas y sefydliad ar yr un radd, gweithio ar radd uwch dros dro er mwyn ennill profiad, ac mae cyfleoedd am ddyrchafiad parhaol ar gael yn rheolaidd hefyd.

Mae **secondiadau a benthyciadau** yn gyfle gwych i brofi sefydliadau (secondiadau) ac adrannau’r llywodraeth (benthyciadau) eraill. Rydyn ni’n aml yn cefnogi opsiynau mewnol ac allanol i unigolion fel ffordd o rannu, datblygu a chynyddu gwybodaeth rhwng timau a sefydliadau.

Mae ein **Rhwydwaith Coetsio a Mentora** mewnol ar gael i bawb, ar bob gradd ac ar unrhyw gam o’ch gyrfa. Rydyn ni hefyd yn cynnig **mentora o chwith**, lle mae unigolion sydd â phrofiad penodol a byw yn mentora uwch-gydweithwyr.

Mae 27 o broffesiynau yn ein sefydliad, sy’n cynrychioli cydweithwyr sy’n gweithio mewn meysydd mor amrywiol â chyfathrebu, gwyddoniaeth, polisi, arolygiaethau, adnoddau dynol, arolygu a thechnoleg ddigidol. Mae pob proffesiwn yn cael ei arwain gan uwch noddwr ac mae aelodau’n derbyn diweddariadau rheolaidd ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu sy’n berthnasol i’w proffesiwn.



# 04
# Teg a Chynhwysol

Rydyn ni'n gadarn yn ein hymrwymiad i fod yn **sefydliad teg a chynhwysol** ac yn cydnabod ein bod yn fwy llwyddiannus a chreadigol pan fyddwn yn amrywiol. Mae cynhwysiant yn helpu i wneud penderfyniadau yn fwy effeithiol ac yn sicrhau bod ein polisïau yn adlewyrchu anghenion pawb yng Nghymru.

- **Rhwydweithiau Staff Sydd â Gwir Ddylanwad**
- **Sefydliad gwrth-hiliol**
- **Model Cymdeithasol o Anabledd**
- **Cynllun Gwarantu Cyfweliad**
- **Addewid Changing Faces**
- **Cyflogwr Menopos Gyfeillgar**
- **Cyflogwr Endometriosis Gyfeillgar**

**"Dwi bob amser wedi teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi a'm cynnwys yn fy nhîm a bod yr hyn sydd gen i i'w gynnig yn cael ei werthfawrogi."**

- Natasha Dunkley, Technoleg a Digidol



## 04
# Teg a Chynhwysol

Mae ein **Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff** yn rhoi llais i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, ar gyfer menywod, cydweithwyr LHDTRh+, cydweithwyr anabl, chydweithwyr sy'n Bobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, cydweithwyr niwroamrywiol a'r rhai sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl. Mae'n gyfle i gwrdd ag eraill a rhannu profiadau, problemau a syniadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol. Mae'r rhwydweithiau hefyd yn gweithredu fel cyrff cynghori i lunwyr polisi mewnol a gallant wneud gwahaniaeth go iawn i'r ffordd rydym yn gweithio.

Mae gennym hefyd amrywiaeth o grwpiau a rhwydweithiau staff llai sy'n cynnig mannau cymdeithasol i gydweithwyr sy'n rhannu diddordebau a phrofiadau, yn darparu gwybodaeth a chymorth, ac yn llunio penderfyniadau sefydliadol. Mae'r rhain yn cynnwys y Rhwydwaith Byw'n Gynaliadwy, y Rhwydwaith Mabwysiadu a Maethu, Rhwydwaith Iaith Arwyddion Prydain, y Rhwydwaith Gofalwyr, y Gymdeithas Gristnogol, y Rhwydwaith Symudedd Cymdeithasol, y Gylchdaith Gymdeithasol, Grŵp Cymorth i Bobl â Tinitws, Pobl Fyddar neu Drwm eu Clyw (TDHS), y Rhwydwaith Staff Figan, y Rhwydwaith Gwahaniaeth Gweladwy a Rhwydwaith Atal Dweud Llywodraeth Cymru

Rydyn ni wedi ymrwymo i fod yn **sefydliad Gwrth-hiliol** a gweithio tuag at wneud Cymru'n genedl wrth-hiliol.


Rydyn ni'n dilyn y **model cymdeithasol o anabledd**.

Efallai bod gan bobl amhariadau, cyflyrau iechyd, yn niwroamrywiol, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ond cymdeithas sy'n eu hanalluogi ac yn peri eu bod yn anabl. Nod **Addasiadau yn y Gweithle** yw cael gwared ar y rhwystrau sy'n analluogi. Gall y rhain fod yn addasiadau ffisegol neu fel arall, a gellir cytuno arnyn nhw a'u diwygio gydol y broses recriwtio ac ar ôl ymuno.

Rydyn ni'n **gwarantu cyfweliad** i unrhyw berson anabl neu gyn-filwr o'r Lluoedd Arfog y mae ei gais yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd.

Rydyn ni wedi llofnodi **Adduned i Gael ein Gweld Changing Faces**, sy'n ein hymrwymo i annog mwy o bobl sydd â gwahaniaeth gweladwy i ymuno â'n sefydliad.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi llofnodi'r **Adduned Menopos yn y Gweithle** gan ymrwymo i fod yn gyflogwr sy'n menopos gyfeillgar. Mae gennym rwydwaith menopos ffyniannus. Rydyn ni hefyd wedi llofnodi adduned y **Gweithle Endometriosis Gyfeillgar**.



# 05
# Iechyd a Lles

Eich lles chi yw ein blaenoriaeth, ac mae gennym amrywiaeth o gynigion i sicrhau bod ein cydweithwyr yn derbyn gofal da.

- **Rhaglen Cymorth i Weithwyr 24/7**
- **Iechyd Galwedigaethol**
- **Yr Awr Lesiant**
- **Cynghreiriaid Iechyd Meddwl**
- **Profion Llygaid am Ddim**
- **Canolfan Ffitrwydd**

**“Mae ffocws y sefydliad ar les wedi cael effaith gadarnhaol ar fy iechyd corfforol a meddyliol. Mae’r diolch yn bennaf i gefnogaeth gan gydweithwyr ac arweinwyr anhygoel a’r pwyslais ar sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.”**

- Morgan Phillips, Tîm Polisi Economaidd



05

# Eich Lles

Mae gennych fynediad at ein gwasanaeth **Iechyd Galwedigaethol** gyda chyngor meddygol annibynnol os yw iechyd a gwaith yn effeithio ar ei gilydd. Yn ogystal, mae ein **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** cyfrinachol am ddim ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

Mae'r **Awr Lesiant** yn caniatáu i bawb, ar wahân i'r Uwch Wasanaeth Sifil, dreulio cyfnod yn ystod yr wythnos waith yn ymroi i weithgaredd iechyd neu les, er enghraifft cerdded, myfyrio neu ymarfer corff.

Mae ein **Cynghreiriaid Iechyd Meddwl** yn rhwydwaith o wirfoddolwyr o fewn Llywodraeth Cymru y gallwch droi atynt am gyngor a chymorth fel unigolyn neu fel rheolwr llinell, ac mae **Employers for Carers** yn darparu cyngor a chymorth i ofalwyr a'u rheolwyr llinell.

Mae gennym **gynllun prawf llygaid** sy'n caniatáu i staff wneud cais am brawf llygaid gydag optegydd o'u dewis bob dwy flynedd a byddwn yn talu'r bil.

Mae **Canolfan Ffitrwydd** ar y safle ar gael yn ein swyddfa ym Mharc Cathays Caerdydd. Ymunwch â **Chyngor Chwaraeon y Gwasanaeth Sifil** i ddefnyddio'r ganolfan a manteisio ar yr ystod eang o weithgareddau, gostyngiadau a chynigion am ddim. Clwb yw ein grŵp iechyd, lles, ffitrwydd a chymdeithasol sy'n cael ei redeg gan gydweithwyr gwirfoddol ac sy'n agored i bawb.

Mae'r **Elusen ar gyfer Gweision Sifil** yn darparu cefnogaeth ymarferol, ariannol ac emosiynol i Weision Sifil, ddoe a heddiw.

